# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 (Senedd)**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Ionawr 2025

Amser: 13.30 - 15.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14788

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AS<br>Jane Dodds AS<br>Altaf Hussain AS<br>Julie Morgan AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Andrew Charles, Llywodraeth Cymru<br>Claire Germain, Llywodraeth Cymru<br>Lorna Hall, Llywodraeth Cymru<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip |
| Staff y Pwyllgor: | Richard Thomas (Clerc)<br>Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Gareth David Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 2 Gwaith craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-2026

Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan y canlynol:

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Amelia John, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol

Claire Germain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd

Lorna Hall, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Llywodraeth Cymru

Andrew Charles, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymunedau Cydlynus, Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

3.1 Gohebiaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

3.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch hyrwyddo Hawliau Dynol yng Nghymru

3.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Cadeirydd ynghylch Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

3.4 Gohebiaeth gan British Gas at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad dilynol i dlodi tanwydd yng Nghymru

3.5 Gohebiaeth gan Gofal Canser Tenovus at y Cadeirydd ynghylch y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr

3.6 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifanc

3.7 Gohebiaeth at y Cadeirydd gan y Llywydd ynghylch penderfyniad Fforwm y Cadeiryddion ar gyrff rhyngseneddol

3.8 Gohebiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol

3.9 Gohebiaeth at Gadeirydd Cyngor Sir Caerdydd ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(iv) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

Derbyniodd yr Aelodau’r cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-2026: trafod y dystiolaeth

Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth, gan gytuno i ysgrifennu at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ofyn am ffyrdd y mae wedi gallu lleihau gwariant ar y gyllideb.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn iddo ystyried gofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystod ei sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft ynghylch uwchraddio’r trothwyon cymhwystra a gwerth arian parod rhai budd-daliadau Cymru – megis y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, y Grant Hanfodion Ysgol a Phrydau Ysgol am Ddim i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd – er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chwyddiant.